**Canllaw byr**

BIOS

Cymdeithas Orthoptig
Prydain ac Iwerddon

# Strabismws (Llygaid croes)

Canllaw byr i gleifion a gofalwyr



# Mae'r daflen hon yn ateb cwestiynau cyffredin am strabismws (neu lygad croes), beth ydyw a sut mae'n cael ei drin.

**Beth yw strabismws?**

Mae strabismws, y cyfeirir ato'n aml fel llygad croes, yn digwydd pan fydd llygad yn troi ac yn stopio gweithio gyda'r llygad arall. Gall y llygad droi tuag at y trwyn neu droi tuag allan, i fyny neu i lawr.

**Beth sy'n achosi strabismws?**

Mewn llawer o achosion, mae strabismws yn cael ei achosi gan olwg pell ac mae angen sbectol ar y plentyn. Mae'r straen a achosir gan y plentyn i geisio gweld heb sbectol yn achosi i'r llygad droi. Mewn achosion eraill efallai nad oes rheswm amlwg ond fel arfer mae hanes o sbectol a/neu strabismws yn y teulu.

**A fydd fy mhlentyn yn tyfu allan o lygad croes?**

Na - er y gall rhywfaint o strabismws wella wrth i'r plentyn fynd yn hŷn.

## Fydd angen triniaeth ar fy mhlentyn?

Bydd datblygu golwg yn cael ei flaenoriaethu, gyda sbectol ac unrhyw batshys angenrheidiol yn cael eu defnyddio yn ystod plentyndod cynnar. Mae rhai achosion o strabismws yn gwella gyda golwg gwell yn unig, ac mae'n bosibl y bydd angen i eraill gael llawdriniaeth i sythu'r llygaid.

## Ydy pob strabismws yn cael ei drin yr un fath?

Na, mae llawer o wahanol fathau o strabismws ac felly llawer o ddewisiadau o ran triniaeth. Ni ddylid cymharu dau achos o strabismws.

## Pwy fydd yn trin llygaid fy mhlentyn?

Efallai y bydd hyd at dri pherson yn gofalu am lygaid eich plentyn.

- Yr **offthalmolegydd** (llawfeddyg llygaid) fydd yn gyfrifol am ofal llygaid cyffredinol eich plentyn a bydd yn cynnal unrhyw lawdriniaeth angenrheidiol, a gall roi sbectol ar bresgripsiwn.
- Bydd yr **orthoptydd** (arbenigwr mewn trin strabismws a datblygiad llygaid plant) yn monitro datblygiad y golwg ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw driniaeth â phatshys sydd ei angen ar eich plentyn. Gall yr orthoptydd hefyd roi cyngor ar unrhyw ymarferion sydd eu hangen i helpu i reoli'r strabismws, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r offthalmolegydd.
- Bydd yr **optometrydd** yn gwirio iechyd cefn y llygad ac yn profi angen eich plentyn am sbectol ac yn rhoi presgripsiwn.

**Faint o amser mae'r driniaeth yn ei gymryd?**
Mae hyn yn amrywio o glaf i glaf. Yn aml, mae ymyriadau cynharach yn arwain at ganlyniadau gwell.

**Sut mae cael gwybod am gyflwr llygaid fy mhlentyn?**
Gofynnwch i unrhyw un o'r gweithwyr gofal llygaid proffesiynol sy'n delio â llygaid eich plentyn. Mae pob achos yn wahanol ac mae'n haws iddynt ateb unrhyw gwestiynau penodol sydd gennych.



©2025 Cynhyrchwyd gan Gymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon: Mehefin 2025.

**orthoptics.org.uk**